Gwerthu Eich Eiddo Gwag:

Mae nifer o ddulliau y gallwch eu defnyddio i werthu'ch eiddo gwag. Mae'r rhain yn cynnwys:-

Defnyddio Gwerthwr Tai:

Fel arfer mae Gwerthwyr Tai'n codi isafswm ffi neu ganran o'r pris gwerthu cyfan. Gallai'r dull hwn sicrhau eich bod yn cael pris ychydig yn uwch am yr eiddo ond gall weithiau hefyd olygu bod eich eiddo ar y farchnad am gyfnod hwy o amser.

Gwerthu drwy Ocsiwn:

Ar hyn o bryd, mae Gwerthwyr Tai ac Ocsiynwyr yn Abertawe'n codi oddeutu 2% i werthu eiddo drwy ocsiwn, yn aml ag isafswm ffi sylfaenol i'r rhai y disgwylir iddynt werthu ar ochr is y farchnad. Mae rhai hefyd yn codi ffi fynediad ychwanegol sy'n talu costau llunio llenyddiaeth, hysbysebu a threfnu'r ocsiwn ei hun.

Mae ocsiwn yn ffordd dda o ryddhau unrhyw gyfalaf yn yr eiddo'n gyflym. Mae'r rhan fwyaf o eiddo'n dueddol o werthu ar ddiwrnod yr ocsiwn a chymerir ad-daliad o 10% nad yw'n ad-daladwy ar y dydd. Yn gyffredinol, caiff y gwerthiant ei gwblhau o fewn mis. Os yw eich eiddo mewn cyflwr gwael, yna mae'n ffordd dda o'i werthu oherwydd bod tai y mae angen eu hadnewyddu'n llawn yn dueddol o ddenu llawer o ddiddordeb mewn ocsiwn!

Dylech gyfeirio at y 'Property Post' lleol am rifau cyswllt Ocsiwn/Gwerthwr Tai ac adolygu eu gwefannau i gael syniad o sut maent yn marchnata eu heiddo.

Gwerthu'n Uniongyrchol i Adeiladwyr

Os nad ydych yn gallu adnewyddu'r eiddo er mwyn ei ddefnyddio eto ac felly am ei werthu, yn aml, mae buddsoddwyr preifat y mae ganddynt ddiddordeb mewn prynu eiddo gwag yn mynd at y cyngor am wybodaeth. Ffoniwch Sally Jones (Swyddog Technegol) ar 01792 635600 os hoffech i'r cyngor roi manylion cyswllt buddsoddwyr sydd wedi mynegi diddordeb mewn prynu eiddo yn ardal Abertawe i chi.